



# Cymeriadau Difyr



Llyfr:	<b>Sami Saith (7)</b>
Adnoddau:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Potiau planhigion bach neu wely plannu.</li><li>• Hadau moron, toriadau mintys, a hadau blodau.</li><li>• Offer garddio (trywelion, caniau dyfrio, ac ati).</li><li>• Labeli rhif (cardiau mawr gyda'r rhif 7 wedi'i ysgrifennu arnyn nhw).</li><li>• Bwrdd gwyn a marcwyr.</li></ul>
Camau:	<p>Nod: Datblygu sgiliau rhifedd trwy archwilio'r rhif 7, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o'r byd naturiol trwy weithgareddau plannu.</p> <p>Cam 1 - Trafodaeth am y rhif 7. Amlygwch y rhif mewn cyd-destunau byd go iawn fel dyddiau mewn wythnos, lliwiau'r enfys, neu grwpiau o saith. Defnyddiwch gymhorthion gweledol i'w wneud yn hwyl ac yn ddeniadol.</p> <p>Cam 2 - Dangoswch yr hadau moron, mintys, a hadau blodau i'r dysgwyr, gan adael iddynt gyffwrdd ynddyn nhw a'u harogli (os yw'n berthnasol). Eglurwch sut mae pob planhigyn yn tyfu, gan ei glymu â thema natur a chynaliadwyedd.</p> <p>Cam 3 - Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach. Mae pob grŵp yn plannu naill ai 7 o hadau moron, 7 toriad mintys, neu 7 o hadau blodau yn eu potiau / mewn rhannau dynodedig o'r ardd. Defnyddiwch labeli rhif 7 i farcio eu gwaith.</p> <p>Cam 4 - Unwaith bydd y plannu wedi'i wneud, gwnewch sesiwn gyfrif hwyliog lle mae'r dysgwyr yn cyfrif gyda'i gilydd hyd at 7 ac yn ôl i lawr.</p> <p>Cam 5 - Adolygwch y gweithgaredd trwy ofyn i'r plant beth ddysgon nhw am rif 7 a phlannu. Anogwch nhw i ddyfrio a gofalu am eu planhigion bob dydd.</p>
Cwestiynu:	<ul style="list-style-type: none"><li>• A all unrhyw un feddwl ble rydyn ni'n gweld y rhif 7 yn y byd o'n cwmpas?</li><li>• Pam rydych chi'n meddwl y gallai'r rhif 7 fod yn arbennig?</li><li>• Faint o hadau rydyn ni wedi'u plannu hyd yn hyn? Faint yn fwy sydd eu hangen i ni gyrraedd 7?</li><li>• A all unrhyw un gyfrif yn ôl o 7 gyda fi tra byddwn ni'n tacluso?</li></ul>





Beth nesaf?	<p>Cadw dyddiadur:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Y dysgwyr i gadw golwg ar dyfiant eu planhigion a'u gofal am y 7 diwrnod nesaf.</li><li>• Cofnodion Dyddiol: Bob dydd, gallai'r dysgwyr dynnu llun eu planhigyn, lliwio llun, neu ysgrifennu brawddeg syml am sut mae'r planhigyn yn edrych neu beth wnaethon nhw (e.e., dyfrio'r planhigyn, gwirio'r pridd). Ar gyfer plant iau, gallwch annog trafodaethau llafar wrth iddyn nhw dynnu llun.</li><li>• Cyfrwch Gyda'ch Gilydd: Ar ddiwedd pob diwrnod, cyfrifwch sawl diwrnod sydd ar ôl yn yr her gofal 7 diwrnod.</li><li>• Myfyrdod ar y Diwrnod Olaf: Ar Ddiwrnod 7, dathlwch drwy ofyn i'r plant ddangos eu dyddiaduron a disgrifiwch unrhyw newidiadau y gwnaethon nhw sylwi arnynt yn eu planhigion. Gallwch hefyd siarad am bwysigrwydd cadw planhigion yn iach y tu hwnt i'r 7 diwrnod.</li></ul>
-------------	---

